

IRBY, GEORGE FLORANCE, 6ed barwn BOSTON (1860 - 1941), tirfeddiannwr a gwyddonydd

Enw: George Florance Irby
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1941
Rhiant: Augusta Caroline Irby
Rhiant: Florance George Irby
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tirfeddiannwr a gwyddonydd
Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir, Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Emyr Gwynne Jones

Ganwyd 6 Medi 1860, mab hynaf Florance George Irby, 5ed barwn Boston, ac Augusta Caroline, merch y 3ydd Barwn de Saumarez. Addysgwyd ef yn Eton a choleg Eglwys Crist, Rhydychen, lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn hanes ddiweddar yn 1882. O 1885 hyd 1886 yr oedd yn 'lord-in-waiting' i'r Frenhines Victoria. Perchenogai stadau yn swyddi Lincoln a Buckingham ac hefyd yn Lligwy, Môn. Trwy gydol ei fywyd treuliodd lawer o'i oriau hamdden i astudio rhai canghennau o'r gwyddorau anianol, yn arbennig seryddiaeth, botaneg ac entomoleg, ac yr oedd yn Gymrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr ac o Gymdeithas Ddaeareg Llundain. Efo oedd llywydd Cymdeithas Hynafiaethol Môn o adeg ei sefydlu yn 1912 hyd o fewn ychydig i'w farw, ac yn ystod y cyfnod hwn bu'n gefn i bob gweithgaredd archaeolegol ym Môn a'r siroedd cyfagos - yn Lligwy ei hun pan archwiliwyd olion hen bentref Prydeinig yno o'r cyfnod Rhufeinig, ac hefyd yng Nghaer Saint (Segontium) a Chaerhun (Conovium). Yn 1936 cyflwynwyd iddo radd LL.D. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru am ei wasanaeth i ddiwylliant cenedlaethol. Bu farw 16 Medi 1941.

Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Ffynonellau

The Times, 17 Medi, 1941

Who's who in Wales (ail arg.)

Minutes of the Annual Meeting of the Court of Governors of the University College of Wales, held at the College, in Aberystwyth, 21 a 22 Gorffennaf 1936

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5540954

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, E. G., (1970). IRBY, GEORGE FLORANCE, 6ed barwn BOSTON (1860 - 1941), tirfeddiannwr a gwyddonydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-IRBY-FLO-1860>

CC0

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government